# Pwyllgor Buddsoddi A Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 20 Mai, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Mr. H. Eifion Jones (Cadeirydd)<br>(Vice-Chair)<br><br>Y Mri. K P Hughes, R Ll Jones, A M Jones a G O Jones |
| **WRTH LAW :** | Ysgrifennydd,<br>Pennaeth Swyddogaeth(Cyllid)/Swyddog Adran 151 Dros Dro,<br>Swyddog Pwyllgor(MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr. Alun W Mummery, Mrs. Nicola Roberts a Mr. Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2013.

### 3 RHEOLI BUDDSODDI

Cyflwynwyd – Adroddiad Chwarterol gan HSBC Global Asset Management (UK) am y cyfnod hyd at ddiwedd Mawrth 2014.

Dywedodd y Rheolwr Buddsoddi fod y portffolio yn dangos perfformiad o +7.3% dros y cyfnod o 12 mis o gymharu â'r meincnod o +5.5%. Fodd bynnag, dros y 3 mis diwethaf roedd y portfolio ychydig yn is na'r meincnod. Gwerth y gronfa ar 19 Mai 2014 oedd £17,214.934.
Cafwyd adroddiad byr gan Mr. Gareth Watts ar berfformiad y portffolio ac ar ddyrannu asedau, difidendau a'r incwm o'r buddsoddiadau.

Dywedodd y bu adferiad graddol yn y byd sy'n datblygu a bod y dychweliadau o farchnadoedd esblygol dramor yn gryf. Cyfeiriodd at dapro camau lliniaru meintiol yn yr Unol Daleithiau a oedd wedi cael effaith ar y marchnadoedd ariannol yno ar y dechrau. Ar ddiwedd Mai ac ym mis Mehefin 2013 roedd marchnadoedd yn wan oherwydd pryderon y byddai'r Gronfa Ffederal yn dechrau tapro ei rhaglen lliniaru meintiol yn gynharach nag a ragwelwyd. Yn ystod y cyfnod hwn roedd bron i bob ased wedi disgyn ac arian parod oedd yr unig le diogel.

Mae cyfraddau llog yn y DU yn parhau i fod yn hanesyddol o isel ac yn debygol o barhau felly i'r dyfodol rhagweladwy. Ymddengys bod gwariant a hyder ymysg cwsmeriaid yn parhau i fod yn isel ar hyn o bryd. Dywedodd yr Ysgrifennydd bod rhai Aelodau o'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi codi'r pwnc buddsoddiadau moesegol ac wedi holi a oes gan y Rheolwyr Buddsoddi unrhyw fframwaith polisi mewn perthynas â buddsoddiadau moesegol o fewn portffolios. Ymatebodd Mr. Watts trwy ddweud bod HSBC bob amser yn trafod ac yn ymgysylltu gyda chwmnïau cyn pleidleisio mewn cyfarfodydd cyffredinol. Dywedodd y byddai'n rhannu adroddiadau ar fframwaith moesegol HSBC gydag Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol.

Dywedodd yr Ysgrifennydd hefyd bod nifer o Aelodau'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi holi a oedd yn briodol gwario rhywfaint o arian cyfalaf y Gronfa oherwydd bod perfformiad y portffolio yn weddol

dda. Dywedodd y Cadeirydd bod angen adolygu meincnod y portffolio i ddenu difidendau canrannol uwch bob blwyddyn. Gofynnodd i HSBC roi ffigyrau i'r Pwyllgor ynghylch y difidendau o'r portfolio dros y 10 mlynedd diwethaf.

Yn dilyn sesiwn o holi ac ateb **PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn yr adroddiad.**
- **Bod HSBC yn rhannu ei fframwaith moesegol gyda'r Ymddiriedolaeth Elusennol fel y gofynnwyd.**
- **Bod HSBC yn rhoi ffigyrau i'r Pwyllgor hwn ynghylch difidendau o'r portffolio dros y 10 mlynedd diwethaf.**

**4** **EITEM YCHWANEGOL**

**EITEM A DRAFODWYD YN BREIFAT**

**ADOLYGU RHEOLI BUDDSODDIADAU**

Dywedodd y Cadeirydd na chynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau Rheoli Buddsoddiadau ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol ers nifer o flynyddoedd.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD y byddai'r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at HSBC Investment Management i drafod adolygiad o'r strwythur ffioedd a'r angen i godi meincnod yr Ymddiriedolaeth.**

**Mr. H. Eifion Jones**
**Cadeirydd**